



PRESS RELEASE: Tuesday 8 November 2022

MEDIA CONTACTS:

Sophie Teall Sophie.Teall@zsl.org 07789 043 843

Matthew Jones Cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 029 2046 4227

INTERVIEWS: Available on request with:

- Jake Davies – Natural Resources Wales (NRW) - Welsh and English language
- Joanna Barker – Zoological Society of London (ZSL) - English language

High-res video and images are available to download [here](#)

Scroll down for Welsh version



A group of smallspotted catshark investigates an underwater camera in Cardigan Bay

Watch soothing underwater scenes in the name of science

Citizen scientists invited to 'plunge' into Welsh waters to help research rare aquatic species

Ocean lovers of all ages are being invited to dive into marine conservation and watch life under the waves in Wales – to help marine scientists understand the aquatic species that call the country's coastline home.

From today (Tuesday 8 November), citizen scientists can explore the underwater world through ZSL's Instant Wild platform for the first time, watching clips from submerged cameras and identifying the species they spot along the way.

The call to action is the latest from Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) a collaboration led by ZSL (Zoological Society of London) and Natural Resources Wales (NRW) designed to further understand the rare sharks, skates and rays living in the area, with the help of fishers, communities and researchers across Wales - and now citizen scientists across the UK.

ZSL's Joanna Barker, Project SIARC Senior Project Manager, said: "Welsh waters are home to an incredible diversity of rare and unusual coastal species, including the Angelshark and tope, both listed as Critically Endangered on the IUCN Red List of Threatened Species.

"We're excited to be able to bring this underwater world into people's homes. By logging into ZSL's Instant Wild, people from anywhere can help us better understand where marine animals are found, how they interact with other species and how they use the protected Welsh habitats they call home - all essential knowledge to help safeguard these species."

ZSL's Instant Wild app and online platform is free to access and enables people of all ages to become citizen scientists from the comfort of their own home, by watching footage from cameras set up by conservationists in the wild and recording the animals they see, saving valuable processing time for researchers.

To gather the new underwater footage, Project SIARC scientists enlisted the help of expert local fishers this summer, to place baited underwater cameras manufactured by Blue Abacus, at key locations in one of the largest protected waters in the UK, the Pen Llŷn a'r Sarnau Special Area of Conservation (PLAS).

Jake Davies, Project SIARC Coordinator at NRW said: "It was vital that we co-designed this study with the local fishing community in Wales, with whom we have worked side-by-side since the launch of Project SIARC – it was only by combining their expert knowledge of the area with our scientific techniques that we were able to gather this important data.

"After collecting more than 90 hours of survey footage over the summer months, it's now over to the public to help us continue this vital research – by spending a few minutes here and there spotting rare sharks, skates, rays and other marine life going about their daily yet enigmatic lives.

"This addition to ZSL's Instant Wild will give people from across the UK a unique peek at life under the waters of the stunning Welsh coastline, while also doubling up as a peaceful pastime – all in the name of science."

ZSL's Instant Wild project manager Kate Moses said: "Citizen scientists from across the world have helped conservationists identify wild animals on land in places such as Kenya, Croatia, Italy and Mexico – now, for the first time, we'll be taking citizen scientists beneath the waves in Wales, and offering a Welsh language version - to help even more people engage with conservation.

"ZSL is intent on removing barriers to conservation, so that more people can get involved with our work saving species - Instant Wild is open to all ages, and no experience is needed, since a simple tutorial is provided – teaching people how to identify the amazing animals they might be lucky enough to spot on screen."

Established in 2021, Project SIARC is led by ZSL and NRW, and delivered in partnership with Bangor University, Blue Abacus, North Wales Wildlife Trust, Swansea University and The Shark Trust, among others. The project focuses on developing links between local communities, scientists and government in order to better understand and safeguard the sharks, skates and rays living along the Welsh coast. The project has received funding from Welsh Government's Nature Networks Fund, which is delivered by The National Lottery Heritage Fund, and On the Edge.

ZSL is committed to preserving species and bringing people closer to wildlife - download the InstantWild app today from the Google Playstore, or start tagging on your desktop at www.instantwild.zsl.org.

-ENDS-

Editors' Notes

High-res images and video available [here](#)

Media contacts:

ZSL Press Office

Sophie Teall Sophie.Teall@zsl.org

07789 043 843

NRW Communications office

Matthew Jones Cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

029 2046 4227 (24hrs)

Project SIARC

Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) is a collaborative project led by ZSL (Zoological Society of London) and Natural Resources Wales (NRW), with the support of Welsh Government's Nature Networks Fund, which is delivered by The National Lottery Heritage Fund, and On the Edge. The marine environment in Wales is teeming with life; beneath the often-murky waters are little understood species of shark, skate and ray (elasmobranchs) of conservation importance. Project SIARC is catalysing links between fishers, researchers, communities and government to collaborate and safeguard elasmobranchs and support a green recovery in Wales.

www.projectsiaarc.com.

We have four main objectives:

- Critical data gaps in the ecology of elasmobranchs are addressed to inform management of two Special Areas of Conservation (SACs)
- Opportunities for involvement in marine conservation in Wales are diversified
- A wider appreciation of the underwater environment in Wales is generated
- The next generation are inspired to connect with marine conservation through learning

Project SIARC Steering Group

The Project SIARC Steering Group includes the following organisations: Bangor University, North Wales Wildlife Trust, Shark Trust, Swansea University, Blue Abacus, Cetacean Standings Investigation Programme ("CSIP"), National Waterfront Museum, On the Edge, People's Collection Wales, Welsh Government, Welsh Federation of Sea Anglers, Welsh Fisherman's Association, Universidad de Las Palmas de Gran Canaria and LIB, Museum Koenig Bonn (Leibniz Institute for the Analysis of Biodiversity Change).

Lead Partners:

ZSL (Zoological Society of London)

Founded in 1826, ZSL (Zoological Society of London) is an international scientific, conservation and educational charity whose mission is to promote and achieve the worldwide conservation of animals and their habitats. Our mission is realised through our ground-breaking science, our active conservation projects in more than 50 countries and our two Zoos, ZSL London Zoo and ZSL Whipsnade Zoo.

As we enter a landmark season for our planet with international meetings such as the upcoming Conferences of the Parties (COPs) of the UN Framework Convention on Climate Change (UNFCCC COP27) and Convention on Biological Diversity (COP15) putting a much-needed spotlight on the big issues impacting biodiversity, ZSL is calling for world leaders to put nature at the heart of all global decision-making – from rewilding cities to better protections for ecosystems, wildlife and local communities who rely on them.

Natural Resources Wales

Natural Resources Wales is a Welsh Government Sponsored Body. Its purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used, now and in the future. For more information, see our website: www.naturalresources.wales

Delivery Partners:

Bangor University

Bangor University is a research-led University providing transformative learning experiences and nurturing a positive impact on society regionally, nationally and internationally. Bangor University's key strategy is to support growth in transformative research focused on halting irreversible environmental change and creating resilient ecosystems, fostering global health outcomes and promoting economic, social, multilingual and cultural vibrancy. Researchers at Bangor University's School of Ocean Sciences are conducting hydrodynamic modelling to help design and interpret results from environmental DNA (eDNA) surveys.

North Wales Wildlife Trust

North Wales Wildlife Trust (NWWT) is a registered charity and limited company. Their vision is a North Wales rich in wildlife valued by all, and their mission is to improve places for wildlife and connect people with wildlife. NWWT recognise that they are uniquely positioned to strengthen the relationship between local people and the natural environment of North Wales, and promote the value of the natural environment to local people. NWWT are leading some of the Project SIARC citizen science initiatives, including organising archival research groups and Shark Trust's Great Eggcase Hunt across Wales.

Shark Trust

Shark Trust is a UK-based charity dedicated to safeguarding the future of sharks, skates, rays and chimaera through positive change. The Trust achieves this through science, education, influence, and action. The Shark Trust are developing dual-language elasmobranch and eggcase ID guides for Wales, to support fisher engagement and citizen science research. They are also supporting NWWT in the delivery of Great Eggcase Hunt events across Wales.

Swansea University

Swansea University is a charitable body with its primary charitable purpose being the advancement of education through teaching and research. The Institute for Innovative Materials, Processing and Numerical Technologies (IMPACT) is a state-of-the-art engineering research institute specialising in fundamental and applied research and innovation in advanced engineering, modelling and materials. The operation has been part-funded by the European Regional Development Fund through the Welsh Government and Swansea University.

As a Centre of Excellence, IMPACT supports the regional, the UK and global engineering economy with collaborative, fundamental and applied research. The Engineering North building, home to IMPACT, is based at Swansea University Bay Campus and forms part of the Faculty of Science & Engineering – offering a unique colocation facility for academia-industry partnerships within a transformative research environment. www.swansea.ac.uk/engineering/impact/

IMPACT at Swansea University are leading school engagement for Project SIARC, including an exciting expansion of 3D printing in schools to bring our focal species to classrooms around Wales.

Blue Abacus

Blue Abacus is a company that manufactures Baited Remote Underwater Videos Systems (“BRUVS”) and conducts image analysis of footage captured by said BRUVS to provide quantitative data related to the number, size and species of marine animals in a surveyed area so as to empower decision makers with the information necessary to make evidence-based decisions related to the stewardship of the marine environment. Blue Abacus is developing Baited Remote Underwater Video (BRUV) equipment for Project SIARC and will lead analysis of BRUVs footage from PLAS.

Funders:

On the Edge

We believe a sustainable future for all life on Earth is possible — but only if we transform the way we treat nature, fast. At On the Edge, we’re committed to reconnecting the public with the value and importance of biodiversity — as well as bringing about lasting, large-scale change to protect species and ecosystems across the world. Our Goal is to inspire curiosity, respect, ambition and action for the natural world. www.ontheedge.org

The National Lottery Heritage Fund

Using money raised by the National Lottery, we Inspire, lead and resource the UK’s heritage to create positive and lasting change for people and communities, now and in the future.

<https://www.heritagefund.org.uk/in-your-area/wales>

Thanks to National Lottery players, more than £30 million goes to good causes across the UK every week. Follow @HeritageFundCYM on Twitter, Facebook and Instagram and use #NationalLotteryHeritageFund.

Nature Networks Fund

This fund aimed to strengthen the resilience of Wales’ network of protected land and marine sites, supporting a green recovery for nature and communities. It was delivered by the National Lottery Heritage Fund in partnership with the Welsh Government.

Project SIARC & Angel Shark Project: Wales

Project SIARC is an expansion of Angel Shark Project: Wales (ASP:W) which was set up in 2018. Since then, it has worked with fishers and local communities to gather over 2,000 Angelshark records, alongside carrying out research to better understand the ecology of the species in Wales. The first underwater footage of an Angelshark was captured in September last year by Project SIARC Coordinator Jake Davies. The Angelshark is listed as Critically Endangered on the IUCN Red List of Threatened Species, but data gathered as part of Angel Shark Project: Wales has provided further evidence that highlights the importance of the Welsh coast for the species. Angel Shark Project: Wales will continue under the umbrella of Project SIARC to deliver the Angelshark elements of the project. www.angelsharkproject.com/wales

Instant Wild

ZSL’s Instant Wild is a revolutionary citizen science app that transmits video and images from motion triggered cameratraps in key wildlife habitats around the world to users’ smartphones, enabling anyone to engage with vital conservation work. Find out more: www.instantwild.zsl.org.

ZSL Use of Images and Video

Photographs, video or graphics distributed by ZSL (Zoological Society of London) to support this media release were taken by Project SIARC and should be credited “Project SIARC | ZSL | NRW”. They may only be used for editorial reporting purposes for the contemporaneous illustration of events, things or the persons in the image or facts mentioned in the media release or image caption. Reuse of the picture or video requires further permission from ZSL.

General Data Protection Regulation (GDPR)

You are currently on the Zoological Society London (ZSL) databases as a press contact. We class press contacts as the journalists, press officers and those working within science communications who have helped ensure the ZSL can continue its mission to ensure the public have access to the best scientific evidence and expertise through the news media when science hits the headlines. Due to the new [General Data Protection Regulation](#) (GDPR), we are letting you know that we hold and process your data under legitimate interest. At any time you can object to the holding or processing of your data, and we will remove you from our database. More information on what we hold, why we keep it and what we use it for is available in our [privacy statement](#). If you have any further questions, please [get in touch](#).



DATGANIAD I'R WASG: Dydd Mawrth 8 Tachwedd am 10am 2022

CYSYLLTIADAU'R CYFRYNGAU:

Sophie Teall Sophie.Teall@zsl.org 07789 043 843

Matthew Jones Cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 029 2046 4227

CYFWELIADAU: Ar gael ar alw gyda:

- Jake Davies – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – Cymraeg
- Joanna Barker – Zoological Society of London (ZSL) – Saesneg

Mae fideos a delweddau eglur iawn ar gael i'w lawrlwytho [yma](#)



Grŵp o fargwn lleiaf yn archwilio camera tanddwr ym Mae Ceredigion

Gwyliwch olygfeydd tanddwr cysurlon yn enw gwyddoniaeth

Gwahoddiad i ddinasyddion wyddonwyr 'blymio' i ddyfroedd Cymru i helpu i ymchwilio i rywogaethau dyfrol prin

Gwahoddir pobl o bob oed sy'n caru'r môr i blymio i gadwraeth forol a gwyllo bywyd o dan y tonnau yng Nghymru – i helpu gwyddonwyr morol i ddeall y rhywogaethau dyfrol sy'n byw ger arfordir y wlad.

O heddiw ymlaen (dydd Mawrth 8 Tachwedd), gall dinasyddion wyddonwyr fewngofnodi i blatfform Instant Wild Cymdeithas Swŷolegol Llundain ac archwilio'r byd tanddwr am y tro cyntaf, drwy wyllo clipiau o gamerâu tanddwr ac adnabod y rhywogaethau y maent yn eu gweld ar hyd y ffordd.

Yr alwad i weithredu yw'r diweddaraf gan Brosiect SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities), cydweithrediad a arweinir gan ZSL (The Zoological Society of London) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a gynlluniwyd i ddeall ymhellach y morgwn (siarcod), a'r morgathod (skates / rays) prin sy'n byw yn yr ardal, gyda chymorth pysgotwyr, cymunedau ac ymchwilyr ledled Cymru – a bellach gyda chymorth dinasyddion wyddonwyr ledled y DU.

Dyweddodd Joanna Barker o ZSL, Uwch-reolwr Prosiect SIARC: “Mae dyfroedd Cymru yn gartref i amrywiaeth anhygoel o rywogaethau arfordirol prin ac anarferol, gan gynnwys y maelgi a’r ci glas, y ddau wedi’u rhestru fel Mewn Perygl Difrifol ar Restr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) o Rywogaethau Dan Fgythiad.

“Rydym yn falch iawn o allu dod â’r byd tanddwr hwn i gartrefi pobl; trwy fewngofnodi i Instant Wild ZSL, gall pobl o bob man helpu i ddeall yn well ble mae anifeiliaid morol i’w cael, sut maen nhw’n rhyngweithio â rhywogaethau eraill a sut maen nhw’n defnyddio’r cynefinoedd Cymreig gwarchoddedig sy’n gartref iddynt – y cyfan yn wybodaeth hanfodol i helpu i ddiogelu’r rhywogaethau hyn.”

Mae ap Instant Wild a phlatform ar-lein ZSL ar gael yn rhad ac am ddim ac yn galluogi pobl o bob oed i ddod yn ddinasyddion wyddonwyr o’u cartref clyd eu hunain, trwy wyllo ffilm o gamerâu a osodwyd gan gadwraethwyr yn y gwyllt a chofnodi’r anifeiliaid y maent yn eu gweld, a thrwy hynny arbed amser prosesu gwerthfawr.

Er mwyn cael y ffilm danddwr newydd, gofynnodd gwyddonwyr Prosiect SIARC am gymorth pysgotwyr lleol arbenigol yr haf hwn i osod camerâu tanddwr a gynhyrchwyd gan Blue Abacus, gydag abwyd, mewn lleoliadau allweddol yn un o ddyfroedd gwarchoddedig mwyaf y Deyrnas Unedig, sef Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a’r Sarnau (PLAS).

Dyweddodd Jake Davies, Cydlynnydd Prosiect SIARC yn CNC: “Roedd yn hanfodol i ni gyd-gynllunio’r astudiaeth hon gyda’r gymuned bysgota leol yng Nghymru, cymuned yr ydym wedi gweithio ochr yn ochr gyda hi ers lansio Prosiect SIARC – dim ond trwy gyfuno ei gwybodaeth arbenigol hi o’r ardal â’n technegau gwyddonol ni y llwyddon ni i gasglu’r data pwysig hwn.

“Ar ôl casglu mwy na 90 awr o ffilm arolwg dros fisoedd yr haf, mae bellach yn nwylo’r cyhoedd i’n helpu ni i barhau â’r ymchwil hanfodol hon – trwy dreulio ychydig funudau yma ac acw yn adnabod morgwn, morgathod a bywyd morol prin arall yn byw eu bywydau beunyddiol ond dirgel.

“Bydd yr ychwanegiad hwn at Instant Wild ZSL yn rhoi cipolwg unigryw i bobl o bob rhan o’r DU ar fywyd o dan ddyfroedd arfordir godidog Cymru, gan hefyd gynnig budd ychwanegol fel hamdden heddychlun – i gyd er budd gwyddoniaeth.”

Dyweddodd Kate Moses, rheolwr prosiect Instant Wild ZSL: “Mae dinasyddion wyddonwyr o bob rhan o’r byd wedi helpu cadwraethwyr i adnabod anifeiliaid gwyllt ar dir mewn lleoedd fel Kenya, Croatia, yr Eidal a Mecsico – nawr, am y tro cyntaf, byddwn yn mynd â dinasyddion wyddonwyr o dan y tonnau yng Nghymru, ac yn cynnig fersiwn Gymraeg – i helpu hyd yn oed mwy o bobl i ymgysylltu â chadwraeth.

“Mae ZSL yn awyddus i gael gwared ar rwystrau i gadwraeth, fel bod mwy o bobl yn gallu cymryd rhan yn ein gwaith yn arbed rhywogaethau – mae Instant Wild yn agored i bob oedran, ac nid oes angen unrhyw brofiad, gan fod tiwtorial syml – yn dysgu pobl sut i adnabod yr anifeiliaid rhyfeddol y gallent fod yn ddigon ffodus i’w gweld ar y sgrin.”

Mae Prosiect SIARC, a sefydlwyd yn 2021, yn cael ei arwain gan ZSL a CNC, a’i ddarparu mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, Blue Abacus, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Prifysgol Abertawe a’r Shark Trust, ymhlith eraill. Mae’r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau rhwng pobl leol, gwyddonwyr a’r llywodraeth er mwyn diogelu’r morgwn a morgathod sy’n byw ar hyd arfordir Cymru. Mae’r prosiect wedi derbyn cyllid gan Gronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac On the Edge.

Mae ZSL wedi ymrwymo i warchod rhywogaethau a dod â phobl yn nes at fywyd gwyllt – lawrlwythwch ap InstantWild heddiw o'r Google Playstore, neu dechreuwch dagio ar eich cyfrifiadur yn www.instantwild.zsl.org.

-DIWEDD-

Nodiadau i olygyddion

Delweddau a fideo eglur iawn ar gael [yma](#)

Cysylltiadau'r cyfryngau:

Swyddfa'r Wasg ZSL

Sophie Teall Sophie.Teall@zsl.org
07789 043 843

Swyddfa Gyfathrebu CNC

Matthew Jones Cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
029 2046 4227 (24 awr)

Prosiect SIARC

Mae Prosiect SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) yn brosiect cydweithredol sy'n cael ei arwain gan ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth y Gronfa Rhwydweithiau Natur, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac On the Edge. Mae amgylchedd morol Cymru yn gyfoeth o fywyd; o dan y dyfroedd – diolau yn aml – ceir rhywogaethau o forgwn a morgathod (elasmobranciaid) o bwysigrwydd cadwraeth na wyddom lawer amdanynt. Mae Prosiect SIARC yn sbarduno cysylltiadau rhwng pysgotwyr, ymchwilwyr, cymunedau a'r llywodraeth i gydweithio a diogelu elasmobranciaid a chefnogi adferiad gwyrdd yng Nghymru. www.projectsarc.com.

Mae gennym bedwar prif amcan:

- Mynd i'r afael â bylchau data critigol yn ecoleg elasmobranciaid er mwyn llywio rheolaeth dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Amrywio cyfleoedd i gymryd rhan mewn cadwraeth forol yng Nghymru
- Ysgogi gwerthfawrogiad ehangach o amgylchedd tanddwr Cymru
- Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i gysylltu â chadwraeth forol trwy ddysgu

Grŵp Llywio Prosiect SIARC

Mae Grŵp Llywio Prosiect SIARC yn cynnwys y sefydliadau canlynol: Prifysgol Bangor, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Shark Trust, Prifysgol Abertawe, Blue Abacus, Rhaglen Ymchwilio i Sefyllfa Morfilod ("CSIP"), Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, On the Edge, Casgliad y Werin Cymru, Llywodraeth Cymru, Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, Universidad de Las Palmas de Gran Canaria ac Amgueddfa Ymchwil Sŵolegol Alexander Koenig

Partneriaid Arweiniol:

ZSL (The Zoological Society of London)

Wedi'i sefydlu ym 1826, mae ZSL (Zoological Society of London) yn elusen wyddonol, cadwraeth ac addysgol ryngwladol a'i chenhadaeth yw hyrwyddo a chyflawni cadwraeth byd-eang anifeiliaid a'u

cynefinoedd. Gwireddir ein cenhadaeth trwy ein gwyddoniaeth arloesol, ein prosiectau cadwraeth gweithredol mewn mwy na 50 o wledydd a'n dwy Sw, ZSL London Zoo and ZSL Whipsnade Zoo.

Wrth i ni gyrraedd tymor carreg filltir i'n planed gyda chyfarfodydd rhyngwladol fel Cynadleddau'r Partïon (COPau) Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC COP27) a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (COP15) yn rhoi sylw y mae mawr ei angen ar y materion mawr sy'n effeithio ar fioamrywiaeth, mae ZSL yn galw ar arweinwyr y byd i roi natur wrth wraidd yr holl benderfyniadau byd-eang – o ail-wylltio dinasoedd i amddiffyniadau gwell ar gyfer ecosystemau, bywyd gwyllt a chymunedau lleol sy'n dibynnu arnynt.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu rheoli, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru

Partneriaid Cyflenwi:

Prifysgol Bangor

Mae Prifysgol Bangor yn Brifysgol a arweinir gan ymchwil sy'n darparu profiadau dysgu trawsnewidiol ac sy'n meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Strategaeth allweddol Prifysgol Bangor yw cefnogi twf mewn ymchwil drawsnewidiol sy'n canolbwyntio ar atal newid amgylcheddol anwrthdroadwy a chreu ecosystemau cadarn, meithrin canlyniadau iechyd byd-eang a hybu bywiogrwydd economaidd, cymdeithasol, amlieithog a diwylliannol. Mae ymchwilwyr yn Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor yn cynnal gwaith modelu hydrodynamig i helpu i ddylunio a dehongli canlyniadau arolygon DNA amgylcheddol (eDNA).

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (YNGC) yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig. Ei weledigaeth yw gogledd Cymru sy'n gyfoeth o fywyd gwyllt a werthfawrogir gan bawb, a'i genhadaeth yw gwella lleoedd ar gyfer bywyd gwyllt a chysylltu pobl â bywyd gwyllt. Mae YNGC yn cydnabod ei fod mewn sefyllfa unigryw i gryfhau'r berthynas rhwng pobl leol ac amgylchedd naturiol Gogledd Cymru, a hyrwyddo gwerth yr amgylchedd naturiol i bobl leol. Mae YNGC yn arwain rhai o fentrau gwyddonol ar gyfer dinasyddion Prosiect SIARC, gan gynnwys trefnu grwpiau ymchwil archifol a Helfa Fawr Casys Wyau'r Shark Trust ledled Cymru.

Shark Trust

Mae'r Shark Trust yn elusen yn y DU sy'n ymroddedig i ddiogelu dyfodol morgwn, morgathod, a chwningod môr trwy newid cadarnhaol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni hyn trwy wyddoniaeth, addysg, dylanwad a gweithredu. Mae'r Shark Trust yn datblygu canllawiau adnabod elasmobranciaid a chasys wyau yn y ddwy iaith ar gyfer Cymru, i gefnogi ymgysylltiad pysgotwyr ac ymchwil wyddonol dinasyddion. Maent hefyd yn cefnogi YNGC i gynnal digwyddiadau Helfa Fawr y Casys Wyau ledled Cymru.

Prifysgol Abertawe

Mae Prifysgol Abertawe yn gorff elusennol a'i phrif ddiben elusennol yw hyrwyddo addysg drwy addysgu ac ymchwil. Mae'r Sefydliad Technolegau, Deunyddiau, Prosesu a Rhifiadol Arloesol (IMPACT) yn sefydliad ymchwil peirianeg o'r radd flaenaf sy'n arbenigo ar ymchwil ac arloesi sylfaenol a chymhwysol ym maes peirianeg uwch, modelu a deunyddiau. Mae'r ymgyrch wedi'i hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru a Phrifysgol Abertawe.

Fel Canolfan Ragoriaeth, mae IMPACT yn cefnogi economi peirianeg ranbarthol, y DU a byd-eang drwy ymchwil gydweithredol, sylfaenol a chymhwysol. Mae adeilad Peirianeg Gogledd, sy'n gartref i IMPACT, wedi'i leoli ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe ac mae'n rhan o'r Gyfadrn Gwyddoniaeth a Pheirianeg – gan ddarparu amgylchedd ymchwil trawsnewidiol effeithiol iawn ar gyfer partneriaethau academaidd diwydiannol ac ymchwil sylfaenol, gydweithredol. [IMPACT – Prifysgol Abertawe \(swansea.ac.uk\)](#)

Mae IMPACT ym Mhrifysgol Abertawe yn arwain ymgysylltu ag ysgolion ar gyfer Prosiect SIARC, gan gynnwys ehangiad cyffrous o argraffu 3D mewn ysgolion i ddod â'n rhywogaethau ffocws i ystafelloedd dosbarth ledled Cymru.

Blue Abacus

Mae Blue Abacus yn gwmni sy'n cynhyrchu Systemau Fideo Tanddwr ag Abwyd o Bell ("BRUVS") ac yn dadansoddi delweddau o ffilm a ddaliwyd gan y BRUVS i ddarparu data meintiol yn ymwneud â nifer, maint a rhywogaethau anifeiliaid morol mewn ardal a arolygwyd er mwyn sicrhau bod gan y rheini sy'n gwneud penderfyniadau yr wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn sy'n ymwneud â stiwardiaeth yr amgylchedd morol. Mae Blue Abacus yn datblygu offer Fideo Tanddwr ag Abwyd o Bell (BRUV) ar gyfer Prosiect SIARC a bydd yn arwain y gwaith o ddadansoddi ffilm BRUVs o PLAS.

Cyllidwyr:

On the Edge

Credwn fod dyfodol cynaliadwy i holl fywyd y Ddaear yn bosibl – ond dim ond os ydym yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn trin natur, yn gyflym. Yn On the Edge, rydym wedi ymrwymo i ailgysylltu'r cyhoedd â gwerth a phwysigrwydd bioamrywiaeth – yn ogystal â sicrhau newid parhaol, ar raddfa fawr i warchod rhywogaethau ac ecosystemau ledled y byd. Ein nod yw ysbrydoli chwilyddedd, parch, uchelgais a gweithredu ar gyfer byd natur. www.ontheedge.org

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Gan ddefnyddio arian a godwyd gan y Loteri Genedlaethol, rydym yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau i dreftadaeth y DU greu newid cadarnhaol a parhaol i bobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. <https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/107838>

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae mwy na £30 miliwn yn mynd at achosion da ledled y DU bob wythnos. Dilynwch @HeritageFundCYM ar Twitter, Facebook ac Instagram a defnyddiwch #CronfaDreftadaethYLoteriGenedlaethol a #NationalLotteryHeritageFund.

Cronfa Rhwydweithiau Natur

Nod y gronfa hon oedd cryfhau cadernid rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchoddedig, gan gefnogi adferiad gwyrdd i natur a chymunedau. Fe'i darparwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Prosiect SIARC a Phrosiect Maelgi: Cymru

Mae Prosiect SIARC yn ehangiad o Brosiect Maelgi: Cymru a sefydlwyd yn 2018. Ers hynny, mae wedi gweithio gyda physgotwyr a chymunedau lleol i gasglu dros 2,000 o gofnodion maelgwn, ochr yn ochr â chynnal ymchwil i ddeall ecoleg y rhywogaeth yng Nghymru yn well. Cafodd y ffilm danddwr gyntaf o faelgi ei recordio ym mis Medi'r llynedd gan Gydlynnydd Prosiect SIARC, Jake Davies. Rhestrir y maelgi Mewn Perygl Difrifol ar Restr Goch yr IUCN o Rywogaethau Dan Fgythiad, ond mae data a gasglwyd fel rhan o Brosiect Maelgi: Cymru wedi darparu tystiolaeth bellach sy'n amlygu pwysigrwydd arfordir Cymru i'r rhywogaeth. Bydd Prosiect Maelgi: Cymru yn parhau o dan faner Prosiect SIARC i ddarparu elfennau'r prosiect sy'n ymwneud â maelgwn. www.angelsarkproject.com/wales

Instant Wild

Mae Instant Wild ZSL yn ap gwyddonol chwyldroadol ar gyfer dinasyddion sy'n trosglwyddo fideo a delweddau o gamerâu sy'n cael eu cychwyn gan symudiadau mewn cynefinoedd bywyd gwyllt allweddol ledled y byd i ffonau clyfar defnyddwyr, gan alluogi unrhyw un i ymgysylltu â gwaith cadwraeth hanfodol. Ceir rhagor o wybodaeth yn: www.instantwild.zsl.org.

Defnydd ZSL o ddelweddau a fideo

Tynnwyd y ffotograffau, fideo neu raffeg a ddsbarthwyd gan ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) i gefnogi'r datganiad hwn i'r cyfryngau gan Prosiect SIARC a dylid rhoi'r gydnabyddiaeth ganlynol iddynt "Project SIARC | ZSL | NRW". Dim ond at ddibenion adrodd golygyddol er mwyn dangos digwyddiadau, pethau neu unigolion o'r un cyfnod yn y delweddau neu ffeithiau a grybwyllir yn y datganiad i'r wasg neu bennawd llun y gellir eu defnyddio. Mae angen caniatâd pellach gan ZSL i aildefnyddio'r llun neu fideo.

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Rydych ar gronfa ddata Cymdeithas Sŵolegol Llundain ar hyn o bryd fel cyswllt i'r wasg. Rydym yn ystyried cysylltiadau i'r wasg fel newyddiadurwyr, swyddogion y wasg a'r rhai sy'n gweithio ym maes cyfathrebu gwyddoniaeth sydd wedi helpu i sicrhau y gall Cymdeithas Sŵolegol Llundain barhau â'i chenhadaeth i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at y dystiolaeth ac arbenigedd gwyddonol gorau trwy'r cyfryngau newyddion pan fydd gwyddoniaeth yn cyrraedd y penawdau. Oherwydd [y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol](#) (GDPR) newydd, rydym yn eich hysbysu ein bod ni'n cadw ac yn prosesu eich data er budd cyfreithlon. Gallwch ein gwrthod rhag cadw neu brosesu eich data ar unrhyw adeg, a byddwn yn eich dileu o'n cronfa ddata. Ceir mwy o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei gadw, pam ein bod yn ei gadw, a'r hyn rydym yn ei ddefnyddio ar ei gyfer yn ein [datganiad preifatrwydd](#). Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, [mae croeso i chi gysylltu](#).